**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Deddfwriaeth orfodol i sicrhau bod Diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus - Adroddiad ar Ystyried Deiseb

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddDeisebau@Cynulliad.Cymru
Twitter: @SeneddDeisebau

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Deisebau

# Deddfwriaeth orfodol i sicrhau bod Diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus - Adroddiad ar Ystyried Deiseb

Gorffennaf 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

# Y Pwyllgor Deisebau

Sefydlwyd y Pwyllgor Deisebau ar 15 Mehefin 2011. Ei rôl yw ystyried yr holl ddeisebau derbyniadwy a gyflwynir gan y cyhoedd. Rhaid i'r deisebau fod ar faterion y mae gan y Cynulliad y pŵer i weithredu arnynt. Mae'r broses ddeisebau yn galluogi'r cyhoedd i amlygu materion ac i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Cynulliad. Mae ei swyddogaethau penodol wedi'u nodi yn Rheol Sefydlog 23.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**William Powell (Cadeirydd)**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Russell George**
Ceidwadwyr Cymreig
Sir Drefaldwyn



**Bethan Jenkins**
Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

# Cynnwys


**Argymhellion y Pwyllgor .... 5**

**Y Ddeiseb .... 6**

Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus – Y Cefndir .... 6

**Ystyriaeth y Pwyllgor o'r Ddeiseb .... 8**

Ystyriaeth Gychwynnol y Pwyllgor .... 8

Uchelgeisiau'r Deisebwyr .... 8

Ystyried yr Ymatebion Ysgrifenedig .... 9

Ymateb y Gweinidog .... 9

Ymatebion Eraill .... 10

Tystiolaeth Lafar gan y Deisebwr .... 13

Hwylustod Defnyddio .... 13

Gwella Ymwybyddiaeth y Cyhoedd .... 15

Gwella Argaeledd .... 16

Ariannu .... 17

Yr Angen am Ddeddfwriaeth .... 17

Adroddiad i'r Cynulliad .... 18

Barn ac Argymhellion y Pwyllgor .... 18

Gwerth Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol .... 18

Argaeledd Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol .... 19

Defnyddio Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol .... 19

Argymhellion .... 20

**I gloi .... 22**

**Tystion .... 23**

**Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig .... 24**

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maen nhw'n ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol, yn cynnwys fod modd iddynt gael eu defnyddio'n ddiogel gan bobl sydd heb gael hyfforddiant. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol wedi'u gosod ym mhob peiriant tân yng Nghymru. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i sicrhau bod lleoliad pob Diffibriliwr Awtomataidd Allanol sydd ar gael yn gyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gofrestru gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried cymryd camau i sicrhau bod Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol ar gael ac yn cael eu gwneud yn gwbl hygyrch mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru, at ddefnydd ymatebwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Wrth wneud hynny, dylai'r Llywodraeth ystyried beth sy'n rhesymol ac ymarferol o edrych ar faint a lleoliad y mannau dan sylw a nifer yr ymwelwyr. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a oes angen deddfwriaeth yn sail i'r angen i gofrestru Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol sydd ar gael yn gyhoeddus yng Nghymru ac i ddarparu tawelwch meddwl "Samariad Trugarog" i aelodau o'r cyhoedd sydd heb gael hyfforddiant ac sy'n eu defnyddio efallai i geisio achub bywyd rhywun. Dylai arolygu hyn yn barhaus. (Tudalen 21)

# Y Ddeiseb

1. Cafodd y ddeiseb isod[1] ei chyflwyno drwy system ddeisebu ar-lein y Cynulliad gan Mr Phil Hill, uwch-ymarferydd nyrsio a phresgripsiynydd:

> *Teitl* – Deddfwriaeth orfodol i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael ym mhob man cyhoeddus
>
> *Testun* - Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i sicrhau, fel yn achos offer diffodd tân sylfaenol (e.e. diffoddwyr), bod diffibrilwyr allanol awtomataidd ar gael ym mhob man cyhoeddus yng Nghymru (wedi'u hariannu gan y GIG, gan elusen neu yn breifat) i sicrhau bod unrhyw un sy'n dioddef ataliad ar y galon yn cael ei drin yn gyflym.
>
> *Gwybodaeth Ategol* - Mae Cymru wedi arwain y ffordd gyda materion pwysig ynghylch iechyd y cyhoedd megis gwahardd ysmygu a rhoi organau. Yn wahanol i ddiffoddwyr tân a phecynnau cymorth cyntaf, nid oes deddfwriaeth ar hyn o bryd yn y DU i sicrhau bod diffibrilwyr allanol awtomataidd ar gael i drin pobl sy'n cael ataliad sydyn ar y galon yn gyhoeddus. Mae sawl achos amlwg diweddar wedi dangos pa mor bwysig ydynt wrth achub bywydau yn ein cymunedau.

2. Denodd y ddeiseb 78 llofnod ar-lein.

**Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus – Y Cefndir**

3. Mae ataliad sydyn ar y galon yn un o'r prif resymau pam mae pobl yn marw cyn pryd. Ceir tua 8,000 o achosion o ataliad sydyn ar y galon yng Nghymru yn flynyddol. Mae diffibrilio yn un cam hanfodol mewn cyfres o brosesau y mae angen eu rhoi ar waith er mwyn adfywio rhywun sydd wedi cael ataliad sydyn ar y galon. Mae'r gyfres hon, neu'r 'gadwyn oroesi', yn cychwyn drwy alw'r gwasanaethau brys cyn gyflymed â phosibl. Yr ail gam yw rhoi triniaeth adfywio cardio-pwlmonaidd sylfaenol (cywasgu'r frest am yn ail â rhoi anadliadau achub) i gadw'r claf yn fyw nes bydd modd cyflawni'r trydydd cam (diffibrilio). Pan gaiff rywun ataliad sydyn ar y galon, gall pob munud heb adfywio cardio-pwlmonaidd leihau'r siawns o oroesi 10 y cant.

[1] Deiseb cyfeirnod P-04-471

Mewn llawer o achosion, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn annhebygol o gyrraedd yn ddigon cyflym i adfywio'r claf.

4. Peiriant yw diffibriliwr sy'n rhoi sioc drydanol i'r galon pan fydd rhywun yn cael ataliad ar y galon. Caiff y peiriannau hyn eu galw hefyd yn ddiffibrilwyr allanol awtomataidd. Mae'r diffibriliwr allanol awtomataidd wedi cael ei ddisgrifio fel y datblygiad unigol pwysicaf er trin ataliad sydyn ar y galon. Mae wedi'i ddylunio i gael ei ddefnyddio gan leygwyr; mae'r peiriant yn tywys y defnyddiwr drwy'r broses drwy roi cyfarwyddiadau llafar ac arweiniad gweledol, ac nid yw'n caniatáu rhoi sioc oni bai fod angen hynny ar rythm y galon. Fodd bynnag, mae Sefydliad Prydeinig y Galon wedi dweud cyn hyn.[2]

> "Although untrained members of the public have used AEDs [*automated external defibrillators*] successfully to save life, the great majority of successful AED use has been by trained people (albeit people with modest training) who were nearby. It is essential to have people on site who are willing to be trained to use the AED."

5. Gall deffibrilwyr allanol awtomatidd gostio rhwng £800 a £1,200 am fodel sylfaenol. Maent wedi'u dylunio i gael eu storio am gyfnodau hir heb gael eu defnyddio ac nid oes angen fawr o gynnal a chadw rheolaidd arnynt, er y gallai fod rhywfaint o gost ychwanegol ar sail oes batris a phadiau electrodau.

[2] A guide to Automated External Defibrillators (AEDs) - Resuscitation Council (UK) and British Heart Foundation - Rhagfyr 2013

## Ystyriaeth y Pwyllgor o'r Ddeiseb

### Ystyriaeth Gychwynnol y Pwyllgor

6. Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ar 16 Ebrill 2013 a chytunodd i ysgrifennu at y canlynol i geisio'u barn ar y ddeiseb:

- Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC);
- Gwasanaethau Tân ac Achub ar draws Cymru;
- Heddluoedd Cymru;
- Unllais Cymru; a
- Chonsortiwm Manwerthu Prydain

7. Wedi hynny, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y canlynol i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran darparu diffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus:

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Sefydliad Prydeinig y Galon; a
- Byrddau Iechyd Lleol (BILl) Cymru.

### Uchelgeisiau'r Deisebwyr

8. Mae'r deisebwr yn uwch-ymarferydd nyrsio a phresgripsiynydd sy'n gweithio yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru. Cyflwynodd y ddeiseb tra oedd yn ymchwilio ar gyfer gradd Meistr i ddatblygu offeryn peilot gyda'r cyhoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth o ddiffribilwyr mynediad cyhoeddus, ac agweddau tuag atynt. Amlinellodd[3] y prif feysydd gweithredu isod y mae'n gobeithio y dechreuir rhoi sylw iddynt wrth ystyried y ddeiseb:

- Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd o ddiffibrilwyr allanol awtomataidd – cynyddu'r wybodaeth am bwy all eu defnyddio a sut mae eu defnyddio;
- Codi Ymwybyddiaeth Busnesau a Darparwyr Gwasanaethau – eu helpu i sefydlu'r risg o'i chymharu â'r manteision i ddefnyddwyr a chleientiaid o ddarparu diffibrilwyr allanol awtomataidd;

---

[3] Fe'u hystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2013

- Un Ddyfais Diffibriliwr Allanol Awtomataidd i Gymru – fel ei bod yn haws ei hadnabod, i leihau'r costau a helpu i safoni hyfforddiant;
- Lleoliad Diffibrilwyr (Allanol Awtomataidd) Mynediad Cyhoeddus – ei gwneud yn haws canfod ble mae diffibrilwyr mynediad cyhoeddus wedi'u lleoli;
- Archwiliadau cynnal a chadw rheolaidd;
- Hyfforddiant – yn arbennig fel bod modd cefnogi achubwyr lleyg sydd heb cael hyfforddiant; a
- Deddfwriaeth – i ddarparu fframwaith i hyn oll, gan sicrhau bod Diffibrilwyr (Allanol Awtomataidd) Mynediad Cyhoeddus ar gael ym mhob gwasanaeth yng Nghymru sydd ag ardaloedd cyhoeddus, a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i "ddeddfau Samariad Trugarog" i dawelu meddwl achubwyr lleyg a'u hamddiffyn.

**Ystyried yr Ymatebion Ysgrifenedig**

9. Ystyriodd y Pwyllgor yr ymatebion i'w gais am wybodaeth yn ei gyfarfodydd ar 2 Gorffennaf 2013 a 10 Rhagfyr 2013.

***Ymateb y Gweinidog***

10. Dywedai ymateb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol hyn:[4]

> "The Welsh Government recognises the value of defibrillators in certain circumstances and the Welsh Ambulance Trust (WAST) has introduced them into key public areas such as train stations, as well as carrying out resuscitation training for the public on their use."

A:

> "On 8 May I launched *Together for Health – A Heart Disease Delivery Plan*. … Delivery Theme 3 [of the plan] *Fast and Effective Care*, includes a priority for Local Health Boards, working with WAST and the British Heart Foundation, to review provision of defibrillators in public places and community first responders to ensure adequate provision and training."

[4] Llythyr 9 Mai 2013 – Ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2013

### *Ymatebion Eraill*

11. Daeth ymatebion o sylwedd i law hefyd oddi wrth y sefydliadau canlynol a chyflwynodd y deisebwr hefyd gefndir ysgrifenedig manwl pellach[5] i'r ddeiseb:

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)
- Gwasanaethau Heddlu Cymru
- Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru
- BILlau Powys, Betsi Cadwaladr, a Chaerdydd a'r Fro

12. Roedd pob ymateb a gafodd y Pwyllgor yn cefnogi manteision diffibrilio cynnar a'r angen i sicrhau bod digon o ddiffibrilwyr allanol awtomataidd yn cael eu darparu mewn mannau cyhoeddus. Ymysg y materion a dynnwyd i sylw'r Pwyllgor drwy'r ymatebion hyn neu mewn papurau briffio a gomisiynwyd gan y Pwyllgor roedd:

*Rôl ymddiriedolaethau ambiwlans*

13. Mae gan ymddiriedolaethau ambiwlans, yn cynnwys Ymddiriedolaeth y Gwasanaethau Ambiwlans yng Nghymru, gyfrifoldeb i roi cynlluniau diffibrilio cynnar ar waith mewn mannau cymunedol.

14. Mae Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, i ddarparu cyfarpar a hyfforddiant ar ddefnyddio diffibrilwyr o dan y Cynllun Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus. Diben y cynllun yw nodi mannau cyhoeddus a fydd yn elwa o osod diffibrilwyr allanol awtomataidd a hyfforddi gwirfoddolwyr i'w defnyddio yn ogystal a'u hyfforddi i roi triniaeth cynnal bywyd sylfaenol. O dan y cynllun, mae diffibrilwyr allanol awtomataidd wedi cael eu darparu o fewn cyrraedd hwylus mewn mannau fel gorsafoedd trenau, canolfannau siopa, amgueddfeydd ac eglwysi.

15. Dywedai llythyr yr Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans at y Pwyllgor[6] fod ganddi reolwr llawn amser yn gweithio ar y Cynllun Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus sy'n cyd-drefnu dros 300 o safleoedd diffibrilwyr ar draws Cymru. Mae dros 450 o ddiffibrilwyr yn eu lle ar y

[5] Ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2013
[6] Llythyr 5 Awst – Ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2013

safleoedd hyn. Mae'r rheolwr wedi darparu hyfforddiant i dros 5,500 o bobl ar draws Cymru i gefnogi'r safleoedd hyn. Noda'r Ymddiriedolaeth fod cynyddu nifer y safleoedd â diffibriliwr yn faes gwaith â blaenoriaeth.

16. Mewn strategaeth sy'n ategu'r Cynllun Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus, gall canolfan reoli ambiwlansys anfon ymatebwyr cyntaf cymunedol gyda diffibriliwr allanol awtomataidd, lle gallent gyrraedd claf yn gyflymach nag ambiwlans gonfensiynol. Hefyd, mae yna gynlluniau cyd-ymatebwyr lle mae aelodau o wasanaethau brys eraill mewn lifrai, yn cynnwys y gwasanaethau tân ac achub a'r heddlu, yn ymateb ar ran yr ymddiriedolaeth ambiwlansys. Bydd y cyd-ymatebwyr hyn hefyd yn cario diffibriliwr allanol awtomataidd.

17. Caiff diffibrilwyr allanol awtomataidd eu cario ar holl ambiwlansys a cheir ymateb cyflym Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac, yn dilyn buddsoddiad Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2013, cânt eu rhoi ym mhob cerbyd Gwasanaethau Gofal Cleifion hefyd erbyn hyn.

*Gwasanaethau Tân ac Achub*

18. Fodd bynnag, fel y dangosir yn ymateb Gwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin,[7] nid oes diffibriliwr allanol awtomataidd ar bob peiriant tân. Dywed y Gwasanaeth fod lle sylweddol i wella'i allu i achub bywydau drwy roi diffibrilwyr allanol awtomataidd ar beiriannau tân rheng flaen.

*Lleoliad diffibrilwyr*

19. Yn ei ganllawiau ar ddiffibrilwyr allanol awtomataidd,[8] dywed Sefydliad Prydeinig y Galon y dylai unrhyw un sy'n dymuno gosod diffibriliwr allanol awtomataidd gysylltu â'r ymddiriedolaeth ambiwlansys berthnasol:

> "The local ambulance service is a ready source of expertise on the provision of resuscitation services and can offer practical advice about the potential value and effectiveness of an AED in any situation, and about training in CPR and the use of AEDs."

---

[7] Llythyr 15 Mai 2013 – Ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2013
[8] A guide to Automated External Defibrillators (AEDs) - Resuscitation Council (UK) and British Heart Foundation - Rhagfyr 2013

20. Diben y protocolau a ddefnyddir mewn ystafelloedd rheoli ambiwlansys yw gwneud yn fawr o'r cyfraniad y gall y rhai sydd yn y fan a'r lle mewn argyfwng ei wneud cyn i'r ambiwlans gyrraedd. Bydd y rhai sy'n cymryd yr alwad yn annog pobl yn y fan a'r lle i roi triniaeth adfywio gardio-pwlmonaidd ac i ddefnyddio diffibriliwr awtomataidd allanol os oes un ar gael – efallai y byddant yn gwybod lleoliad y diffibriliwr agosaf os ydynt wedi cael y wybodaeth honno'n flaenorol ac wedi'i chofnodi ar eu cronfa ddata. Mae'r Cyngor Adfywio (y Deyrnas Unedig) yn annog holl berchenogion diffibrilwyr i gofrestru'r dyfeisiau hyn gyda'u gwasanaeth ambiwlansys lleol er mwyn iddynt ddarparu'r budd mwyaf posibl. Gall hyn gynnwys defnyddio'r diffibriliwr y tu allan i'r safle penodol lle mae wedi'i leoli.

21. Mae'n debygol, serch hynny, nad yw pob diffibriliwr awtomataidd allanol a brynir gan sefydliadau unigol wedi cael ei gofrestru gyda'r ymddiriedolaeth ambiwlansys, felly efallai fod diffyg gwybodaeth drosolwg neu gynhwysfawr am leoliad yr holl ddiffibrilwyr yng Nghymru.

22. Ysgrifennodd y Pwyllgor at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i ofyn am wybodaeth am ble mae diffibrilwyr yn cael eu lleoli a pha rôl sydd gan awdurdodau lleol yn penderfynu ar y lleoliad. Ymatebodd CLlLC[9] drwy ddweud nad oedd ganddi'r capasiti i gasglu'r wybodaeth hon:

> "It would in turn require all authorities to undertake an extensive and potentially costly survey not least of all in terms of leisure centres, libraries, schools, residential care homes etc."

23. Dywedodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys hefyd:[10]

> "At present we do not currently hold a list of where these devices are placed, this would need to be established as part of the planning process as these devices may be provided locally independently of the Health Board."

24. Awgrymai'r wybodaeth bellach a ddarparwyd gan y deisebwr (Rhagfyr 2013) y dylai fod cyfnod casglu gwybodaeth er mwyn sefydlu lleoliad diffibrilwyr awtomataidd allanol yng Nghymru.

---

[9] Llythyr 2 Mai - Ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2013
[10] Llythyr 15 Awst - Ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2013

*Adolygiad darpariaeth y Byrddau Iechyd*

25. Roedd Llythyr y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (9 Mai 2013) yn cyfeirio at y Cynllun Cyflawni ar Gyfer Clefyd y Galon yr oedd Llywodraeth Cymru newydd ei gyhoeddi ar y pryd. Roedd yn cynnwys blaenoriaeth ar i'r Byrddau Iechyd Lleol, yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru a Sefydliad Prydeinig y Galon, adolygu'r ddarpariaeth diffibrilwyr mewn mannau cyhoeddus ac ymatebwyr cyntaf cymunedol, i sicrhau darpariaeth a hyfforddiant digonol.

26. Nid yw'n glir o'r ymatebion a ddaeth i law pa gynnydd sydd wedi'i wneud yn hyn o beth. Mae ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr[11] yn nodi bod gwaith ar y gweill yn ei ardal, ac y bydd cynnydd yn cael ei gynnwys yng nghynllun cyflawni lleol y Bwrdd Iechyd ar gyfer clefyd y galon/rhaglen waith rhwydwaith cardiaidd y Gogledd hyd at 2016.

## Tystiolaeth Lafar gan y Deisebwr

27. Yng ngoleuni'r ymatebion ysgrifenedig, cytunodd y Pwyllgor i wahodd y deisebwr i gyflwyno'i gynigion i'r Pwyllgor ac ateb cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

28. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y Deisebwr, Mr Hill, yn ei gyfarfod ar 29 Ebrill 2014. Daeth Mr Richard Lee, rheolwr gwasanaethau clinigol a pharafeddyg gyda'r gwasanaeth ambiwlansys i'r cyfarfod gyda Mr Hill, a hefyd Ms June Thomas, sy'n ymgyrchu yn y gymuned i gael diffibrilwyr wedi'u lleoli mewn ysgolion lleol. Roedd mab 15 oed Ms Thomas, Jack, wedi marw yn sgil ataliad sydyn ar y galon.

### *Hwylustod Defnyddio*

29. Yn ogystal â chyflwyno'r rheswm am y ddeiseb ac ateb cwestiynau'r Aelodau, rhoddodd y deisebwyr arddangosiad i'r Pwyllgor hefyd ar ddefnyddio diffibriliwr mynediad cyhoeddus. Gellir gweld yr arddangosiad ar [www.senedd.tv](http://www.senedd.tv), [1 awr a 19 munud i mewn i weddarllediad y cyfarfod[12]]. Parodd yr arddangosiad lai na 4 munud a'i ddiben oedd dangos mor syml yw'r dyfeisiau i'w defnyddio a chyn

---

[11] Llythyr 6 Awst - Ystyriwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Rhagfyr 2013

[12] [http://senedd.tv/Meeting/Archive/e83c549b-53cc-4079-b653-1585c6af568b?autostart=True](http://senedd.tv/Meeting/Archive/e83c549b-53cc-4079-b653-1585c6af568b?autostart=True)

lleied o hyfforddiant sy'n ofynnol gan fod y ddyfais yn rhoi cyfarwyddiadau awtomataidd ei hun.

30. Fel yr eglurodd Richard Lee wrth y Pwyllgor:

> "A defibrillator, as June has already said, is a £1,000 device—there is one on the table here—that is increasingly designed to be used by somebody with no formal training. The machine talks when you turn it on; it gives you very clear instructions on what to do, including starting by telling you to remain calm and giving some reassurance to the user. There are a lot of myths about AEDs that they might make the situation worse. It is impossible to inappropriately treat a patient with an automated defibrillator. That is the whole point of them being automated; they will deliver an electric shock only to somebody whose heart has stopped and whose heart is in a particular type of rhythm when it has stopped."[13]

31. Gan ymdrin â'r pryderon y gallai'r dyfeisiau gael eu defnyddio, drwy amryfusedd, mewn sefyllfaoedd amhriodol, dywedodd Mr Lee wrth y Pwyllgor:

> "… if someone has fainted and they are unconscious, we would encourage people to stick the pads on and turn the machine on; the machine will then either advise an electric shock if the patient is in cardiac arrest, or will not if the patient has fainted. These machines are used in large organisations on a daily basis, such as the London Underground, Virgin Atlantic and British Airways. Due to the number of people that they deal with every day, they will apply these machines every day and they are used very safely."[14]

32. O ran yr amser gorau i ddefnyddio'r dyfeisiau hyn mewn argyfwng, dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "The evidence shows us that if someone's heart stops, within three to four minutes their brain will start to suffer through lack of oxygen. So, the first three or four minutes in a cardiac arrest are vital. It is vital that someone starts CPR because that will buy time. It is vital that someone dials 999 to get

---

[13] Trawsgrifiad Pwyllgor Deisebau 29 Ebrill 2014 para 114
[14] ibid para 138.

professional help on the way, and it is vital that someone delivers an electric shock through a defibrillator. If those things are done in the first three or four minutes, that will give the patient the greatest chance of survival. As Phil said, with every minute that passes between someone's heart stopping and a defibrillator being applied, the chance of survival dwindles by 10%."[15]

### *Gwella Ymwybyddiaeth y Cyhoedd*

33. Tynnodd y deisebwr sylw'r Pwyllgor at y ffaith fod diffibrilwyr ar gael yn eang. Fodd bynnag, roedd yn pryderu bod gan y cyhoedd nifer o gamsyniadau, yn cynnwys bod gofyniad i'w darparu o dan rai amgylchiadau ac mai dim ond pobl sydd wedi cael eu hyfforddi all eu defnyddio.

> "I think that this is why the legislation is important. As I have shown, a lot of places, especially clinical areas, have a defib already, but, even among professionals, there is a misconception about who can use it and who they should let have it. As we have said, perhaps some focus could be put on changing the law to make people aware of their commitment of making a defib available 24/7, and, instead of just buying defibrillators all the time, making cabinets available, and reassuring people about legislation, litigation, and the fact that they are really foolproof. So, I think that a lot of the barriers are around legislation and funding, when, as hopefully the map demonstrates, there are already an awful lot of defibs out there in Wales—extrapolated across the entire area—that could be co-ordinated with public training and charity work, as well as with the ambulance service."[16]

34. Amlinellodd Ms Thomas beth o'i gwaith hi i sicrhau bod diffibrilwyr ar gael yn ehangach mewn ysgolion:

> "My experience of Jack was that he was a 6 ft 3 in healthy boy who never had any underlying health problems whatsoever. It was such a shock. He was just sat on the sofa and his heart just stopped and we still do not know to this day what happened to Jack. The school rallied around. I also work with another

[15] Trawsgrifiad Pwyllgor Deisebau 29 Ebrill 2014 para 140
[16] Ibid para 117

charity, called CRY—Cardiac Risk in the Young. I have a heart-screening programme coming into Oakdale Comprehensive School on 6 June, which would have been Jack's eighteenth birthday. Along with that, I thought about the defibs; the screening and the defibs go hand in hand. So, I approached the schools first. I approached Oakdale Comprehensive School and spoke to the headteacher there. He was more than willing to have a defib, and have charities coming in to train all of the children. There are four other schools now involved."[17]

### *Gwella Argaeledd*

35. Eglurodd Mr Lee fod y system gyfrifiadurol yn rhoi gwybod i staff yng nghanolfannau cyswllt y gwasanaeth ambiwlansys (999) ble mae diffibrilwyr awtomataidd allanol wedi'u lleoli'n agos at y sawl sy'n ffonio. Fodd bynnag, nid yw'r wybodaeth hon yn gyflawn a gellir ei gwella. Dywedodd:

> "A lot of companies will have provided a defibrillator in their workplace, and we need to find a way to make sure that all of those are captured.
>
> "I think that the big opportunity is for us to ensure, in Wales, that, where there is a defibrillator in a building, as Phil says, it is available 24 hours a day to the local community. That is as simple as the defibrillator being mounted in a cabinet on the outside of the building rather than being locked away in the building when that facility is closed. We know that a considerable number of cardiac arrests do not occur in public places, but occur at home. The thing that will make cardiac arrest a disease of the past is for a defibrillator to be widely available immediately for people in domestic situations. That can be achieved only by increasing the number of defibrillators that are available to the public in their residential areas."[18]

36. Wrth ymdrin â phryderon y gallai diffibrilwyr, fel darnau gwerthfawr o gyfarpar, gael eu dwyn neu'u difrodi pe caent eu harddangos yn gyhoeddus, dywedodd Mr Lee:

[17] Trawsgrifiad Pwyllgor Deisebau 29 Ebrill 2014 para 133
[18] Trawsgrifiad Pwyllgor Deisebau 29 Ebrill 2014 para 120-121

> "In all the train stations, they are in unlocked cabinets. Certainly, in Swansea, there is one right in the centre of the city in an unlocked cabinet. I am only aware, over the past five years, of one occasion when a machine went missing and, following a front-page article in the local paper, it was miraculously returned to a local police station, having been found. So, we do not see these things going missing. As you say, fire equipment does not go missing and this would be similar."[19]

### *Ariannu*

37. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y dyfeisiau'n costio tua £1,000 yr un. Credai'r deisebwyr fod hyn yn cynrychioli gwerth rhagorol am arian. Dywedodd Ms Thomas wrth y Pwyllgor:

> "… Obviously, as a mum, losing a child, it is about the importance of having this equipment to save a life; £1,000 is nothing and, as Phil has already said, the public should have easy access to it so that everybody can use it."[20]

38. Rhoddodd Mr Lee enghreifftiau o werth y dyfeisiau o'i chymharu â'u costau:

> "There is one leisure centre in Wales that I am aware of that, on three occasions over the past five years, has resuscitated people before we have arrived. That is really powerful for a device that costs £1,000. Those are three young people who have gone home to their families to lead a well life. In terms of the prudent healthcare agenda, good outcomes are prudent healthcare. Reviving somebody who goes on to live a functional life after their injury or illness is a good example of spending health money wisely. With every minute that goes by, that outcome becomes worse and, therefore, the patient will need more support in future."[21]

### *Yr Angen am Ddeddfwriaeth*

39. Eglurodd y deisebwr wrth y Pwyllgor beth yn ei farn ef y dylai unrhyw ddeddfwriaeth newydd yng Nghymru ymdrin yn benodol ag ef:

---

[19] Trawsgrifiad Pwyllgor Deisebau 29 Ebrill 2014 para 149
[20] Ibid para 112
[21] Ibid para 142

> "…it is about having them available. That is the key, in the same way as we have fire extinguishers available. As you say, nobody really worries about, 'Oh my God, if I use this fire extinguisher now, will I get sued?' There should be the same mentality with the defibs."

40. Crynhodd hynny fel hyn:

> "International evidence is starting to emerge that with simple, co-ordinated public awareness and training campaigns, reinforced with public access defibrillator legislation, survival rates can not only be doubled, but more than tripled on occasion. I feel passionately that AEDs should be treated with the same, if not greater, importance as first aid kits, firefighting equipment and even river rescue equipment, which have similar laws under health and safety legislation to reinforce their importance. As with the smoking bans and the organ donation law, I feel that, yet again, Wales could lead the way in the UK on this vital public health and life-saving issue."[22]

## Adroddiad i'r Cynulliad

41. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a ddaeth i law, cytunodd y Pwyllgor i gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ar y mater fel y byddai modd i'r Cynulliad drafod y materion pwysig a godwyd yn llawnach mewn Cyfarfod Llawn.

## Barn ac Argymhellion y Pwyllgor

### *Gwerth Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol*

42. Erbyn hyn mae diffibrilwyr awtomataidd allanol ar gael yn eang ledled Cymru. Pan fydd claf yn cael ataliad ar y galon, gall pob munud heb driniaeth adfywio cardio-pwlmonaidd a diffibrilio leihau'r siawns o oroesi 10 y cant. Mae'r dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno inni yn dangos bod diffibrilwyr awtomataidd allanol yn helpu i achub bywydau ac yn cynyddu cyfraddau goroesi. Er nad yw diffibriliwr yn eitem rad, mae'r gost o'i chymharu â'r buddion posibl yn ymddangos yn un fwy na rhesymol i'w thalu.

43. Mae llawer o adeiladau cyhoeddus yn darparu diffibrilwyr ac yn aml cânt eu harddangos yn amlwg yn yr un modd â chyfarpar diffodd

---

[22] Trawsgrifiad Pwyllgor Deisebau 29 Ebrill 2014 para 111

tân. O'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chlywed, mae cefnogaeth eang ymysg gweithwyr proffesiynol – y gwasanaethau tân, achub, heddlu ac iechyd – ac o du llywodraeth ar bob lefel yng Nghymru i fanteision diffibrilio cynnar a sicrhau bod diffibrilwyr awtomataidd allanol ar gael yn eang mewn mannau cyhoeddus.

### *Argaeledd Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol*

44. Mae cryn ddarpariaeth yn barod mewn llawer man ledled y wlad. Yn wir, teimlai rhai eu bod yn bresennol ym mhobman. Roeddem yn synnu braidd, felly, o ddeall nad oes gofyniad cyfreithiol nac unrhyw ofyniad arall i ddarparu dyfeisiau mewn adeiladau cyhoeddus. Roeddem yn synnu hefyd o glywed nad oes diffibrilwyr awtomataidd allanol yn cael eu darparu ym mhob peiriant tân.

45. Er eu bod ar gael yn eang efallai, nid oes cofrestr ganolog o leoliad y dyfeisiau. Efallai nad yw'r gwasanaethau ambiwlans ac achub yn gwybod am fodolaeth dyfais gerllaw a allai helpu aelod o'r cyhoedd sydd wedi gwneud galwad ffôn frys. Nid yw Byrddau Iechyd Lleol hyd yn oed yn gwybod am leoliad pob diffibriliwr yn eu hardal, yn enwedig os ydynt wedi cael eu darparu'n annibynnol ar y Bwrdd Iechyd.

46. Rydym yn deall pryderon llywodraeth leol ynglŷn â goblygiadau, o ran adnoddau, sefydlu ble mae diffibrilwyr wedi'u lleoli yn eu hardal. Fodd bynnag, nid ydym wedi'n hargyhoeddi y bydd sefydlu'r wybodaeth hon yn ymarferiad mor eang a chostus ag y maen nhw'n ei ofni.

47. Rydym yn ymwybodol fod Llywodraeth Cymru wedi lansio 'Law yn Llaw at Iechyd – Cynllun Cyflawni ar Gyfer Clefyd y Galon' ac y bydd elfen o'r gwaith hwnnw'n canolbwyntio ar ddarparu diffibrilwyr a hyfforddiant digonol mewn mannau cyhoeddus. Teimlwn y gallai rhai o'r pryderon allweddol a welsom wrth ystyried y mater helpu hefyd i gyfrannu tuag at roi'r cynllun hwnnw ar waith.

### *Defnyddio Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol*

48. Syndod pleserus inni hefyd oedd clywed mor syml yw'r dyfeisiau hyn i'w defnyddio. Ategodd yr arddangosiad a roddwyd inni – yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor – mor hawdd yw'r dyfeisiau i'w defnyddio a'i bod yn anodd os nad yn amhosibl gwneud hynny mewn ffordd sy'n achosi niwed.

49. Gan nad ydynt yn sylweddoli mor hawdd ydynt i'w defnyddio, rydym yn deall y gallai llawer o'r cyhoedd betruso rhag eu defnyddio mewn sefyllfaoedd go-iawn i achub bywydau. Serch hynny, mae'n ymddangos nad oes fawr o amheuaeth fod modd iddynt gael eu defnyddio gan bawb bron heb fawr ddim hyfforddiant. Yr un ffaith hon efallai yw'r un a wnaeth yr argraff gryfaf arnom.

***Argymhellion***

50. Mae'r hyn rydym wedi'i glywed wedi ein hargyhoeddi bod angen gosod rhagor o ddiffibrilwyr awtomataidd allanol mewn mannau cyhoeddus, a sicrhau bod y rhai sydd ar gael yn barod yn cael eu gwneud yn fwy hygyrch, gan gael gwared cyn belled ag y mae'n bosibl â rhwystrau rhag i bobl sydd heb gael hyfforddiant eu defnyddio.

51. Drwy osod rhagor o ddiffibrilwyr awtomataidd allanol yng Nghymru rydym yn cydnabod y bydd mwy o angen hyfforddiant ac yn arbennig y bydd angen codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'u defnydd. Fodd bynnag, rydym yn llwyr gefnogi amcanion y ddeiseb.

52. I adlewyrchu hyn rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol i Lywodraeth Cymru:

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o fanteision Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol, yn cynnwys fod modd iddynt gael eu defnyddio'n ddiogel gan bobl sydd heb gael hyfforddiant.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol wedi'u gosod ym mhob peiriant tân yng Nghymru.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n cymryd camau i sicrhau bod lleoliad pob Diffibriliwr Awtomataidd Allanol sydd ar gael yn gyhoeddus yng Nghymru yn cael ei gofrestru gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried cymryd camau i sicrhau bod Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol ar gael ac yn cael eu gwneud yn gwbl hygyrch mewn mannau cyhoeddus yng Nghymru, at ddefnydd ymatebwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol. Wrth wneud hynny, dylai'r Llywodraeth ystyried beth sy'n rhesymol ac**

**ymarferol o edrych ar faint a lleoliad y mannau dan sylw a nifer yr ymwelwyr.**

**Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n ystyried a oes angen deddfwriaeth yn sail i'r angen i gofrestru Diffibrilwyr Awtomataidd Allanol sydd ar gael yn gyhoeddus yng Nghymru ac i ddarparu tawelwch meddwl "Samariad Trugarog" i aelodau o'r cyhoedd sydd heb gael hyfforddiant ac sy'n eu defnyddio efallai i geisio achub bywyd rhywun. Dylai arolygu hyn yn barhaus.**

## I gloi

53. Hoffem ddiolch i’r deisebwr a’i gydweithwyr am eu gwaith caled a’u hymroddiad ac am ddwyn ein sylw at y mater pwysig hwn.

54. Hoffem hefyd gofnodi ein diolch i bawb a ymatebodd i’n cais am wybodaeth.

## Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiad o'r sesiwnu tystiolaeth lafar yn llawn yn: www.senedd.assembly.wales/documents/s27391/29%20April%202014.html?CT=2#def

| *29 Ebrill 2014* | *Sefydliad* |
|---|---|
| Mr Phil Hill | Prif Ddeisebwr |
| Richard Lee | Rheolwr Gwasanaethau Clinigol a Pharafeddyg, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| June Thomas | Ymgyrchydd cymunedol dros ddarparu Diffibrilwyr |

## Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Cyflwynodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn: www.senedd.cynulliad.cymru/ieIssueDetails.aspx?IId=6285&Opt=3

| *Sefydliad neu Berson* | *Dyddiad ystyried y dystiolaeth* |
|---|---|
| Deisebwr | – 2 Ebrill 2013<br>– 2 Gorffennaf2013<br>– 10 Rhagfyr 2013<br>– 29 Ebrill 2014 |
| Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | – 2 Gorffennaf 2013 |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | – 2 Gorffennaf 2013 |
| Heddlu Gogledd Cymru | – 2 Gorffennaf 2013 |
| Heddlu Dyfed-Powys | – 2 Gorffennaf 2013 |
| Heddlu De Cymru | – 2 Gorffennaf 2013 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub De Cymru | – 2 Gorffennaf 2013 |
| Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | – 2 Gorffennaf 2013 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | – 10 Rhagfyr 2013 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | – 10 Rhagfyr 2013 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Powys | – 10 Rhagfyr 2013 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro | – 10 Rhagfyr 2013 |
| Heddlu Gwent | – 10 Rhagfyr 2013 |